# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)31-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 24 Tachwedd 2009

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth

Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad

Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

Marc Wyn Jones, Gwasanaethau'r Siambr

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)30-09 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 17 Tachwedd 2009**

2.1 Cafodd y cofnodion drafft eu cyflwyno i'r Pwyllgor. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, caiff y cofnodion eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)31-09(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn gwneud datganiad ar Gynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr Unfed Ganrif ar Hugain yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5 p.m. ddydd Mawrth na dydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 24 a 25 Tachwedd 2009.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)31-09(p2)**

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)31-09(p3)**

3.5 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 9 Rhagfyr 2009 -**

Dadl ar Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd a Lles Cymdeithasol) 2010 a'i gymeradwyo (60 munud)

**Dydd Mercher 13 Ionawr 2010 -**

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar gyllidebu plant yng Nghymru (60 munud)

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar brif ffrydio cynaliadwyedd ym mhortffolios Gweinidogion (60 munud)

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Deddfwriaeth**

**Llythyr gan Jonathan Morgan ar Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd a Lles Cymdeithasol) 2010- BC(3)31-09(p4)**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes lythyr gan Jonathan Morgan yn gwneud cais am ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar ei Orchymyn arfaethedig Aelod.  Ar 3 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gytuno i geisiadau am fusnes ychwanegol drwy ymestyn hyd Cyfarfodydd Llawn. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnal y ddadl ddydd Mercher 9 Rhagfyr.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**